
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y RHWYDWAITH TRAMOR




Mawrth 2026

# SWYDDFEYDD RHYNGWLADOL LLYWODRAETH CYMRU





OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54070
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg


Llundain
Berlin
Düsseldorf
Beijing
Doha
Dubai
Tokyo
Shanghai
Chongqing
Delhi Newydd
Mumbai
Bangalore

# TSIEINA



## Qingyun Ma

**E-bost:** qingyun.ma001@llyw.cymru

Mae Qingyun yn gweithio i Brif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Chongqing, ac mae ganddi 16 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru yn rhanbarthau De-orllewin Tsieina (Chongqing, Sichuan, Yunnan, Guizhou) a chanolbarth Tsieina (Hubei, Hunan, Henan).



## Karen Sun

**E-bost:** karen.sun@llyw.cymru

Fel Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Shanghai a Dwyrain Tsieina, mae gan Karen dros 15 mlynedd o brofiad o gefnogi busnesau Cymru i gael mynediad i farchnad Tsieina, a denu busnesau o Tseina i fuddsoddi yng Nghymru. Ei phrif ffocws yw gweithgynhyrchu uwch, y gwyddorau bywyd, ynni adnewyddadwy a chynhyrchion defnyddwyr.



## Susan Jiang

**E-bost:** susan.jiang001@llyw.cymru

Mae Susan yn gweithio fel Prif Gynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Beijing a Gogledd-orllewin Tsieina, ac mae ganddi dros 21 mlynedd o brofiad o gefnogi cwmnïau o Gymru i gael mynediad i farchnad Tsieina ac i ddatblygu eu busnesau mewn sectorau fel y gwyddorau bywyd, gweithgynhyrchu uwch, addysg a bwyd a diod.

# TSIEINA



## Peggy Wang

**E-bost:** peggy.wang001@llyw.cymru

Ymunodd Peggy â swyddfa Chongqing Llywodraeth Cymru yn 2017, gan gefnogi busnesau Cymru i archwilio De-orllewin a chanolbarth Tsieina a chynorthwyo sefydliadau addysgol Cymru i sefydlu partneriaethau a nodi prosiectau mewnfuddsoddi posibl a phrosiectau allforio/masnach i Gymru.



## Karen Xing

**E-bost:** karen.xing@llyw.cymru

Karen yw Prif Swyddog Materion Cymru Llywodraeth Cymru yn Chongqing, ac mae ganddi dros ddeng mlynedd o brofiad yn cefnogi cwmnïau a sefydliadau o Gymru sy'n gwneud busnes yn Ne-orllewin Tsieina. Mae hefyd yn arwain ar gysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo Cymru'n ddigidol yn Tsieina.

ALLFORIO YN NEWYDD ICHI?
DECHREUWCH EICH TAITH GYDA NI.

# JAPAN



## Matthew Ellis

**Email:** matthew.ellis001@llyw.cymru


Ymunodd Matthew â Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026 fel Pennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Tokyo, ar ôl tair blynedd fel Dirprwy Gonswl Cyffredinol yn Osaka. Mae wedi gweithio'n helaeth gyda busnesau'r DU – yn Japan ac o fewn Adran Fusnes y DU. Mae Japan yn farchnad â blaenoriaeth, gan gynnig cyfleoedd ar draws sectorau gan gynnwys gweithgynhyrchu, ynni, bwyd a diod, y gwyddorau bywyd a thechnoleg. Mae'r tîm yn elwa ar ein harbenigedd, ein dealltwriaeth ddiwylliannol a'n rhwydweithiau helaeth i gefnogi cwmnïau o Gymru sy'n gweithredu yn Japan.



## Goro Okada

**E-bost:** goro.okada@llyw.cymru

Ers 2003, mae Goro wedi bod yn cefnogi cwmnïau o Gymru i allforio i Japan, yn ogystal â denu buddsoddi o Japan i Gymru. Mae'n ymdrin ag amrediad eang o sectorau, ac yn ddiweddar mae ei ffocws wedi bod ar sector technoleg Cymru, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch a seilwaith ac ynni gwyrdd – sectorau sydd o ddiddordeb allweddol i fusnesau Japan.



# JAPAN



## Akiko Hashimoto

**E-bost:** akiko.hashimoto@llyw.cymru

Ymunodd Akiko â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Japan yn 2008, ac ei rôl bresennol yw cefnogi gweithgareddau hyrwyddo Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor a Masnach gyda'r sectorau Technoleg Feddygol a Bwyd a Diod, gan gyfrannu at ragor o ymwybyddiaeth o Gymru yn Japan a rhagor o ymgysylltu.



## Kae Miyazawa

**Email:** kae.miyazawa@llyw.cymru

Ymunodd Kae â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Tokyo ym mis Rhagfyr 2024 fel Uwch Swyddog Materion Cymru. Cyn hynny buodd hi'n gweithio yn DBT Japan yn arwain datblygu masnach ym meysydd manwerthu, bwyd a diod a'r sectorau creadigol. Ei rôl bresennol yn Llywodraeth Cymru yn Tokyo yw cefnogi busnesau o Gymru i ddatblygu o fewn marchnad Japan (masnach) a busnesau o Japan i datblygu yng Nghymru (buddsoddi). Mae hefyd yn rheoli perthynas y rhanddeiliaid allanol ar y Cysylltiadau Rhyngwladol/Pŵer Meddal rhwng Japan a Chymru.

# INDIA





## Eoghan O'Regan

**Email:** eoghan.oregan@llyw.cymru

Mae Eoghan O'Regan yn gwasanaethu fel Pennaeth India dros Lywodraeth Cymru, ac mae'n gweithio o fewn Swyddfa Dirprwy Uchel Gomisiwn Prydain ym Mumbai. Mae Eoghan yn arwain ymgysylltu strategol Cymru ledled India, gan atgyfnerthu cysylltiadau dwyochrog, hyrwyddo cydweithredu llywodraeth i lywodraeth a chefnogi buddiannau economaidd, diwylliannol ac academaidd Cymru. Mae'n gwneud hyn gyda thîm wedi'i leoli yn New Delhi, Mumbai a Bengaluru.



## Fiona Rodrigues

**E-bost:** fiona.rodrigues@llyw.cymru

Mae Ffiona wedi ei lleoli ym Mumbai a hi yw Uwch Reolwr Llywodraeth Cymru ar gyfer India. Mae hi wedi cynorthwyo cwmnïau o India i fuddsoddi, cydweithio a llwyddo yng Nghymru gan helpu cwmnïau o Gymru i lwyddo mewn marchnadoedd byd-eang am dros 16 o flynyddoedd. Mae hi'n gweithio ar draws sawl sector diwydiant i helpu cwmnïau sector cyhoeddus a phreifat i allforio, masnachu a buddsoddi. Mae cysylltiadau â llywodraethau, ymgynghorwyr masnach a chyrff amrywiol y diwydiant wedi ei helpu i fod yn gatalydd wrth nodi cyfleoedd i Gymru.



# INDIA



## Marylin Kumar

**Email:** marylin.kumar@llyw.cymru

Dw i'n gweithio yn New Delhi, ac rwy'n gwasanaethu fel Rheolwr Gwlad ar gyfer Gogledd a Dwyrain India. Rwy'n arwain y fasnachu a'r ymgysylltu ar fuddsoddi rhwng Cymru ac India ar gyfer y rhanbarth hwn. Mae fy rôl yn cynnwys cefnogi cwmnïau o India i archwilio cyfleoedd yng Nghymru a galluogi busnesau Cymru i ehangu ym marchnad India. Rwy'n gweithio'n agos gyda chyrff y llywodraeth, cymdeithasau diwydiant ac arweinwyr busnes i nodi cyfleoedd strategol ac atgyfnerthu partneriaethau dwyochrog rhwng Cymru ac India.

# EWROP



## Laura Norris

**E-bost:** laura.norris@llyw.cymru

Mae Laura yn arwain ein tîm masnach a buddsoddi o ddau berson. Mae'r tîm hwnnw wedi ei leoli ym Mrwsel ac yn canolbwyntio ar Ewrop. Ymunodd Laura â Llywodraeth Cymru yn 2022 ar ôl dros 15 mlynedd o waith rhyngwladol yn Affrica ac Asia. O swyddfa Brwsel, rydyn ni'n cefnogi busnesau Cymru gyda gwybodaeth am gyfleoedd masnach a hyrwyddo ar draws holl farchnadoedd Ewrop, ar wahân i lefydd lle mae gennym Swyddfeydd penodol Llywodraeth Cymru yn Ffrainc, yr Almaen ac Iwerddon. Rydyn ni'n canolbwyntio yn benodol ar Wlad Belg, yr Iseldiroedd, Sbaen, yr Eidal, y Swistir a'r Gwledydd Nordig ond rydyn ni'n ceisio cefnogi cwmnïau gydag ymholiadau ar draws holl farchnadoedd Ewrop.



## Rhiannon Evans

**E-bost:** rhiannon.evans23@llyw.cymru

Ym mis Gorffennaf 2023 penodwyd Rhiannon yn Uwch Reolwr Masnach a Buddsoddi yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Brwsel, yn dilyn pedair blynedd o brofiad yn ein swyddfa yn Nulyn. O Frwsel, rydyn ni'n cefnogi cwmnïau o Gymru sy'n ceisio cyrchu a thyfu allforion ledled Ewrop, yn ogystal â hyrwyddo buddsoddi i mewn i Gymru. Mae ein cymorth allforio yn canolbwyntio'n bennaf ar ein sectorau â blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Allforio; Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Gwyddorau Bywyd, Bwyd a Diod, Cynhyrchion Defnyddwyr, Technoleg ac Ynni Adnewyddadwy lle rydyn ni'n ceisio cefnogi cwmnïau sydd â chysylltiadau a chyfleoedd hyrwyddo yn y farchnad.

# FFRAINC



## Elizabeth Nixey

**E-bost:** elizabeth.nixey@llyw.cymru

Ymunodd Elizabeth â Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Ffrainc fel y Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach yn 2021, yn dilyn dros bum mlynedd o brofiad yn darparu cymorth arbenigol i gwmnïau o Brydain i ddeall marchnad Ffrainc ac i werthu iddi yn llwyddiannus. Nod Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharis yw datblygu ymhellach gysylltiadau ar draws rhanbarthau Ffrainc a nodi cyfleoedd i arddangos Cymru.

# YR ALMAEN





## Marc Shanker

**E-bost:** marc.shanker@llyw.cymru

Fel Uwch Reolwr Datblygu Busnes i Lywodraeth Cymru yn ein swyddfa yn Düsseldorf, mae Marc yn dod ag ugain mlynedd o brofiad masnach dwyochrog mewn adeiladu cysylltiadau rhwng y DU a'r Almaen. Gydag economi aeddfed ac amrywiol yr Almaen a datblygiadau cyson Cymru ym maes arloesi a'i hysbryd arloesol, mae'n gofalu am bortffolio eang o sectorau diwydiant sy'n cysylltu pobl â syniadau blaengar.



## Martha Pawlita

**E-bost:** martha.pawlita@llyw.cymru

Mae Martha wedi bod yn gweithio i Swyddfa'r Almaen Llywodraeth Cymru fel Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach ers Gorffennaf 2019. Mae hi wedi'i lleoli yn Berlin, ac mae hi'n cefnogi datblygu busnes rhwng Cymru a'r Almaen, yn hyrwyddo Cymru fel gwlad sy'n gyfrifol yn fyd-eang, ac yn cefnogi gweithgareddau ar y cyd mewn ym meysydd diwylliant, ymchwil ac arloesi.



## Federico Patini

**E-bost:** federico.patini001@llyw.cymru

Federico Patini sy'n arwain swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn yr Almaen, yn Berlin a Dusseldorf, ers 2024. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar hyrwyddo masnach a buddsoddi mewn rhanbarthau â blaenoriaeth, yn ogystal â chodi proffil Cymru yn yr Almaen drwy hyrwyddo cysylltiadau busnes, gwleidyddol a diwylliannol. Cyn hynny, bu Federico yn gweithio i'r FCDO yn Swyddfa Cwnsel Cyffredinol Prydain yn Efrog Newydd a Llysgenhadaeth Prydain yn Rhufain, yn ogystal ag yn nhîm Cysylltiadau a Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

# IWERDDON



## Iain Quick

**E-bost:** iain.quick@llyw.cymru

Cafodd Iain ei benodi yn Bennaeth Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn yn 2022 ac mae wedi gweithio ym maes datblygu busnes rhyngwladol ers dros 15 mlynedd. Mae tîm Iwerddon yn rhoi amrediad o gymorth i gwmnïau o Gymru i'w helpu i gael mynediad at farchnad Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cwrdd â phrynwyr mewn sectorau allweddol, digwyddiadau mynediad i'r farchnad a chefnogi ymweliadau masnach i'r farchnad.



## Rachel Randall

**E-bost:** rachel.randall@llyw.cymru

Yn 2023 penodwyd Rachel yn Rheolwr Cysylltiadau Allanol a Masnach yn Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn. Mae gan Rachel hanes profedig mewn cyflawni rhyngwladol a datblygu busnes. Mae Rachel yn gweithio ar gyflawni ein Cyd-ddatganiad Iwerddon Cymru. Mae ein hagenda ddwyochrog uchelgeisiol yn rhychwantu ymgysylltu gwleidyddol, economaidd a diwylliannol.



## John O'Loughlin

**E-bost:** john.oloughlin@llyw.cymru

Ymunodd John â Llywodraeth Cymru yn 2022 ac mae'n rheolwr datblygu busnes profiadol iawn gyda hanes cryf o ran sicrhau canlyniadau masnach a buddsoddi rhwng Iwerddon a'r DU. Mae gan John rwydwaith busnes sefydledig yn Iwerddon sy'n canolbwyntio ar y sector technoleg.

# YR EMIRAETHAU ARABAIDD UNEDIG



## Sarah Taylor

**E-bost:** sarah.taylor007@llyw.cymru

Mae Sarah yn gweithio yn yr Emiradau Arabaidd Unedig, a hi yw Pennaeth Llywodraeth Cymru yn rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica. Cylch gwaith ei thîm yw cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes ar draws amrywiol sectorau. Cyn hynny, roedd hi'n Gyfarwyddwr DIT, UAE rhwng 2020 a 2022, yn Ddirprwy Gyfarwyddwr DIT UAE rhwng 2016 a 2020 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Masnach a Buddsoddi y DU yn Doha, Qatar. Cyn gweithio i Lywodraeth Cymru, buodd hi hefyd yn gweithio i'r FCDO am 24 mlynedd, gan wasanaethu yn Hong Kong, Beijing a Doha ddwywaith.



## Phil Taylor

**E-bost:** phil.taylor@llyw.cymru

Phil yw Dirprwy Bennaeth tîm y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica sydd wedi'i leoli yn Dubai. Mae wedi treulio dros 12 o flynyddoedd yn byw yn y rhanbarth, yn mwynhau cefnogi allforwyr o Gymru i ddatblygu eu busnes yma ar draws amrediad o sectorau. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, bu mewn swyddi gyda Masnach a Buddsoddi y DU a Masnach a Buddsoddi Queensland yn Asia a'r Môr Tawel, Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae ganddo amrediad eang o brofiad ym maes gwerthu, marchnata, rheoli ceisiadau a datblygu busnes yn y sector preifat ar gyfer cwmni electroneg rhyngwladol mawr.

YN EDRYCH AR FARCHNADOEDD ALLFORIO NEWYDD?
GALLWN NI EICH HELPU!


# QATAR



## Aicha Srour

**E-bost:** aicha.srour@llyw.cymru

Aicha yw Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Doha, Qatar, ac ymunodd hi ychydig cyn i Gymru ennill ei lle yng Nghwpan y Byd FIFA yn 2022. Cyn hynny, bu'n gweithio am bedair blynedd yn rhedeg y tîm gweithrediadau yn Llysgenhadaeth Prydain yn Doha. Mae ganddi gefndir cryf ym maes datblygu busnes a gwerthu ac wedi gweithio yn Llundain cyn mynd i Qatar, gan werthu'n rhyngwladol, ond nid yn unig i ranbarth GCC. Mae'n hybu allforion, nwyddau a gwasanaethau Cymru, ar draws sawl sector drwy gysylltu busnesau â rhanddeiliaid allweddol yn Qatar.




# CANADA



## Emily Scott

**E-bost:** emily.scott@llyw.cymru

Mae Emily Scott yn gweithio fel Pennaeth Canada Llywodraeth Cymru. Mae hi'n gweithio yn swyddfa Conswl Prydain ym Montréal, ac mae'n gyfrifol am gynrychioli Cymru a buddiannau Llywodraeth Cymru ledled Canada. Ymunodd Emily â Llywodraeth Cymru yn 2010. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys bod yn Ysgrifennydd Dyddiadur i Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, ac Ysgrifennydd Preifat i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates AS.



# GOGLEDD AMERICA



## Zowie Hay

**E-bost:** zowie.hay@llyw.cymru

Mae Dr Zowie Hay yn gwasanaethu fel Pennaeth Gogledd America Llywodraeth Cymru. Mae hi'n gweithio o fewn Llysgenhadaeth Prydain yn Washington DC, ac yn goruchwylio tîm sydd â phresenoldeb yn DC, Dinas Efrog Newydd, Chicago, Atlanta, Los Angeles a Montreal. Hi yw'r uwch ddiplomydd dros Gymru yng Ngogledd America. Ymunodd Zowie â Llywodraeth Cymru yn 2011 ac mae ganddi brofiad ar draws ystod o adrannau'r llywodraeth.




## Brittan Robinson

**E-bost:** brittan.robinson001@llyw.cymru

Ymunodd Brittan Robinson â thîm Cymru yng Ngogledd America fel Rheolwr Cysylltiadau Cyngresol ym mis Mehefin 2024. Graddiodd Brittan o Brifysgol Old Dominion, lle bu'n astudio gwyddoniaeth wleidyddol a gwasanaeth cyhoeddus. Ar hyn o bryd mae'n cwblhau rhaglen Meistr mewn Astudiaethau Amddiffyn a Strategol gan ganolbwyntio ar Weithrediadau Gwybodaeth yng Ngholeg Rhyfel y Llynges yr Unol Daleithiau. Cyn dechrau gweithio i Lywodraeth Cymru, bu Brittan yn gweithio yng Nghyngres yr Unol Daleithiau fel aelod staff deddfwriaethol i ddau aelod o Dŷ'r Cynrychiolwyr yr UDA, Val Demings a Jamie Raskin. Ar ôl cwblhau pum mlynedd a hanner yn Capitol Hill, ymunodd Brittan â Capitol Bridge, contractwr ffederal ardal metro Washington, DC, fel Awdur Technegol ar gyfer ei Swyddfa Rheoli Prosiect ac Eiriolwr Talent ar gyfer prosiect dyfarnu grant gan DC-DOES sy'n anelu at gefnogi trigolion Washington, DC sy'n wynebu rhwystrau i sicrhau cyflogaeth. Fel Rheolwr Cysylltiadau Cyngresol, mae Brittan yn goruchwylio Caucus Cyfeillion Cymru ar Capitol Hill yn ogystal â nifer o flaenoriaethau Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru ymhlith swyddfeydd y gyngres. Yn ogystal, mae hefyd yn rheoli cyfrifon Llywodraeth Cymru yng Ngogledd America ar y cyfryngau cymdeithasol – ar X a LinkedIn.

# UDA





## Simon Heydon

**E-bost:** simon.heydon@llyw.cymru

Simon yw cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn Chicago. Mae e'n gweithio dros 14 talaith yng Nghanolbarth y Gorllewin, ar draws amrediad o feysydd, gan gynnwys masnach a buddsoddi.




## Luis Calette

**E-bost:** luis.calette@llyw.cymru

Luis Calette yw arweinydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin yr Unol Daleithiau. Mae e'n gweithio o fewn Swyddfa Prif Gonswl Prydain yn Los Angeles, ac mae'n gweithio dros 12 talaith – California, Oregon, Washington, Idaho, Montana, Wyoming, Utah, Nevada, Arizona, New Mexico, Hawaii ac Alaska.

Cyn hynny, bu Luis yn gweithio fel Cyfarwyddwr swyddfa Adran Masnach Ryngwladol y Gogledd-orllewin yn Tijuana, Mecsico a chreodd a gweithredodd bolisi masnach y DU ar gyfer yr Economi Ddigidol, y Diwydiannau Creadigol, prosiectau Morol, Hamdden a Thwristiaeth a Chwaraeon ym Mecsico. Roedd yn arbenigo mewn mynediad i'r farchnad a datblygu busnes, ac mae wedi helpu cannoedd o gwmnïau i lywio drwy gymhlethdodau masnach ryngwladol.



# UDA



## Charlie Thomas

**Email:** charlie.thomas@llyw.cymru

Charlie Thomas yw Dirprwy Bennaeth Gogledd America Llywodraeth Cymru, a hi yw uwch ddiplomydd Cymru yn Swyddfa Conswl Cyffredinol Prydain yn Efrog Newydd. Mae hi'n gyfrifol am hyrwyddo economaidd, diwylliannol, a blaenoriaethau polisi ledled yr Unol Daleithiau a Canada, gan ysgogi masnach, allforio a chyfleoedd mewnfuddsoddi, a chodi proffil Cymru gyda sefydliadau rhyngwladol. Cyn ei rôl ryngwladol, roedd Charlie yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn swyddfa Prif Weinidog Cymru. Mae hi wedi ymgymryd ag amrediad eang o rolau polisi a strategaeth ar draws Llywodraeth Cymru, gan gynnwys arwain y gwaith o ddatblygu polisi a gweithredu deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, a chynllunio strategol a chyflwyno arolygiadau o'r holl wasanaethau gofal iechyd GIG a gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.




## Christopher Koh

**Email:** christopher.koh@llyw.cymru

Mae Christopher Koh yn gwasanaethu fel Dirprwy Bennaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Arfordir y Gorllewin. Mae e'n gweithio o fewn Swyddfa Prif Gonswl Prydain yn Los Angeles ac mae'n gweithio gyda Luis Calette i oruchwylio 12 talaith ledled Gorllewin yr Unol Daleithiau. Ymunodd â Llywodraeth Cymru yn 2026 ac mae ganddo brofiad ym maes cynghori ariannol a dadansoddi ar gyfer cwmnïau byd-eang ac arweinwyr diwydiant ar draws gwahanol ddiwydiannau megis y Cyfryngau a Thelathrebu, Technoleg, Gweithgynhyrchu, Eiddo Tiriol a mwy.

# UDA





## Harriet Griffiths

**Email:** harriet.griffiths@llyw.cymru

Mae Harriet Griffiths yn gweithio yn Efrog Newydd, a hi yw Dirprwy Bennaeth Swyddfa Gogledd-ddwyrain UDA, sy'n cwmpasu deg talaith gogledd-ddwyrain yr Unol Daleithiau – Efrog Newydd, New Jersey, Connecticut, Pennsylvania, Delaware, Massachusetts, New Hampshire, Rhode Island, Vermont a Maine. Mae ei rôl yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau mewnfuddsoddi sydd â'r potensial i ddod â swyddi gwerth uchel i Gymru, gyda ffocws ar Dechnoleg Ariannol, y Gwyddorau Bywyd, y Diwydiannau Creadigol, a Thechnoleg. Mae hi hefyd yn cynorthwyo busnesau Cymru drwy nodi cyfleoedd allforio rhanbarthol, cynghori ar amodau masnachu lleol a strategaethau mynediad i'r farchnad, a chefnogi teithiau masnach Llywodraeth Cymru i ranbarth y Gogledd-ddwyrain. Cyn ymuno â Llywodraeth Cymru, roedd Harriet yn Dditectif yng Ngwasanaeth yr Heddlu Metropolitan yn Llundain, ac yn ymchwilydd i'r Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu.

## HYB ALLFORIO BUSNES CYMRU

Yr holl wybodaeth allforio sydd ei hangen ar eich busnes.

https://businesswales.gov.wales/export/cy